**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 19 Chwefror, 2018 (BORE)**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 22 Chwefror, 2018. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 1 Mawrth, 2018. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 2 Mawrth, 2018.

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr R Dew, John Griffith, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R G Parry OBE, FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery a Carwyn Jones

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Aled Morris Jones, Kenneth Hughes, Bryan Owen, Peter Rogers

**Ymddiheuriadau**: Cynghorydd Meirion Jones

(10:00am i 11:45am)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Monitro'r Gyllideb Refeniw, Chwarter 3 2017/18**<br>Adroddad gan y Pennaeth Swyddogaeth(Adnoddau) /Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>**• Nodi'r sefyllfa fel y caiff ei nodi yn Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r canlyniad disgwyliedig ar gyfer 2017/18;**<br>**• Cymeradwyo trosglwyddo unrhyw danwariant ar weithgareddau Arforol i gronfa wrth gefn wedi ei chlustnodi er mwyn talu i beintio Pier Biwmares;**<br>**• Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2017/18 fel y manylir arnynt yn Atodiad C:**<br>**• Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH;**<br>**• Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2017/18 yn Atodiad D;**<br>**• Nodi monitro'r costau asiantaeth ac ymgynghorwyr yn 2017/18 yn Atodiadau DD, E a F.** |

| | |
|---|---|
| | • **Gofyn i'r Panel Sgriwtini Cyllid archwilio effaith y llifogydd difrifol a gafwyd ym mis Tachwedd, 2017 ar wariant a rhaglennu'r gwasanaeth Priffyrdd, er mwyn ceisio gwella cynlluniau'r dyfodol ar gyfer digwyddiadau tebyg.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn monitro Cyllideb Refeniw 2017/18.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 2017/18 Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 3**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r gwariant a'r derbyniadau yn ystod chwarter 3 yn erbyn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2017/18.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn monitro Cyllideb Cyfalaf 2017/18.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Monitro'r Gyllideb CRT, Ch 3 2017/18**<br>Adroddad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r sefyllfa a nodwyd mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 3 2017/18.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2017/18.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Ffioedd a Thaliadau 2018/19**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Cymeradwyo'r atodlen ffioedd a thaliadau ar gyfer 2018/19.**<br>• **Na fydd ffioedd bysus ysgol yn destun cynnydd chwyddiant ar gyfer 2018/19 ac y bydd taliadau drwy ddebyd uniongyrchol yn cael eu hwyluso.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Pennu ffioedd a thaliadau ar gyfer 2018/19** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Rhenti'r CRT a Thaliadau'r Gwasanaeth Tai 2018-2019**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Cymeradwyo'r cynnydd mewn rhent yn unol â rhent targed Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gasgliad dros 51 wythnos.**<br>• **Cymeradwyo cynnydd o 4.5% yn yr holl renti sydd rhwng £0.06 - £6.15 yn is na'r targed yn ogystal â swm hyd at yr uchafswm o £2.00 yr wythnos i gyrraedd y rhent targed.**<br>• **Cymeradwyo cynnydd o 4.5% yn yr holl renti sydd rhwng £4.75 - £6.69 yn is na'r targed a £2.00 ychwanegol yr wythnos.**<br>• **Cymeradwyo bod y rhent ar gyfer yr 19 eiddo sydd â rhent uwch na'r lefel targed yn aros fel y mae.**<br>• **Cymeradwyo cynnydd o 40c yr wythnos ar gyfer rhenti'r holl garejys.**<br>• **Cymeradwyo'r taliadau gwasanaeth a nodir yn adran 3.3. yr adroddiad ar gyfer yr holl denantiaid sy'n derbyn y** |

| | |
|---|---|
| | **gwasanaethau perthnasol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo'r rhenti'r CRT a thaliadau'r Gwasanaeth Tai ar gyfer 2018/19** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Cartrefi'r Awdurdod Lleol ar gyfer Pobl Hyn - Pennu'r Ffi Safonol**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Er bod y Cyngor yn cydnabod y costau sy'n gysylltiedig â gofal preswyl, nid yw cost wirioneddol darparu'r gwasanaeth wedi ei adlewyrchu yn y tâl a godir ar drigolion.**<br>• **Bod y cynnydd ar gyfer y rheini sy'n cyfrannu tuag at gost eu gofal yn gyson gyda'r canllawiau ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor, sef 3% a bod ffi o £601.82 yn cael ei gosod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo ffi safonol ar gyfer cartrefi gofal preswyl yr Awdurdod Lleol ar gyfer 2018/19.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Dibreswyl yn y Gymuned - Ffioedd a Thaliadau 2018/19**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Cymeradwyo'r ffioedd gofal cartref a amlinellir yn nhabl 1 yr adroddiad.**<br>• **Cymeradwyo'r ffioedd ar gyfer prydau mewn gwasanaethau dydd a** |

| | |
|---|---|
| | **amlinellir yn nhabl 3 yr adroddiad.**<br><br>**Prydau mewn Gwasanaethau Dydd i oedolion (ac eithrio pobl ag Anabledd Dysgu) - £5.90**<br><br>**Byrbryd canol dydd mewn gwasanaethau dydd i bobl ag Anabledd Dysgu - £ 2.40**<br><br>**Lluniaeth Arall (te / coffi / teisen) mewn gwasanaethau dydd - £ 1.30**<br><br>**• Cymeradwyo'r ffioedd ar gyfer gwasanaethau Teleofal fel yr amlinellwyd yn nhabl 4 yr adroddiad.**<br><br>**Haen 1 – bydd pawb yn talu £45.24**<br>**Haenau 2 a 3 – bydd pawb yn talu £90.22**<br><br>**• Cymeradwyo'r ffioedd blynyddol ar gyfer gwasanaethau Teleofal fel yr amlinellwyd yn nhabl 5 yr adroddiad.**<br><br>**Gwasanaeth a Chynnal a Chadw £107.55**<br>**Gwasanaeth yn unig £69.50**<br>**Costau Gosod Unwaith ac am byth £43.00**<br><br>**• Cymeradwyo cyfradd o £ 11.30 / awr ar gyfer Taliadau Uniongyrchol**<br><br>**• Cynnal ffi o £ 10.00 ar gyfer costau gweinyddu mewn perthynas â cheisiadau am Fathodyn Glas fel yr amlinellir yn yr adroddiad.**<br><br>**• Cynyddu'r ffi am brynu gwasanaethau gofal dydd mewn cartrefi preswyl annibynnol 5% i £32.21**<br><br>**• Cynyddu'r ffi am brynu gofal cartref wedi ei gomisiynu o £15.90 o £16.53 yr awr fel cyfradd interim** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo Ffioedd a Gwasanaethau** |

| | |
|---|---|
| | **Gofal Cymdeithasol Dibreswyl yn y Gymuned – Ffioedd a Thaliadau 2018/19** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Ffioedd Gofal Cartref yn y Sector Annibynnol ar gyfer 2018/19**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>**• Cydnabod Methodoleg Ffioedd Gogledd Cymru fel y cafodd ei gweithredu hyd yma gan yr Awdurdodau yng Ngogledd Cymru fel sylfaen ar gyfer pennu ffioedd yn Ynys Môn yn ystod 2018/19 (Atodiad 2 yr adroddiad).**<br>**• Cymeradwyo'r argymhelliad i gynyddu'r lefelau ffioedd a nodwyd yn Nhabl 2 uchod**<br>**• Yr un modd ag Awdurdodau eraill, rhoi'r awdurdod i'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyllid ymateb i unrhyw geisiadau gan gartrefi i edrych ar eu cyfrifon penodol a defnyddio'r ymarfer fel sylfaen i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd y cytunwyd arnynt. Rhaid i unrhyw eithriadau gael eu cytuno gyda'r Deilydd Portffolio, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion o'r cyllidebau cyfredol. Oni fedrir dod i gytundeb, bydd y mater yn mynd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo lefelau'r ffioedd ar gyfer cartrefi gofal sector annibynnol 2018/19** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Arian Wrth Gefn**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>**• Nodi'r polisi cyffredinol ynglŷn â balansau a chronfeydd a fabwysiadwyd ar 1 Mawrth 2016, fel y nodir hynny yn Atodiad A o'r adroddiad;**<br>**• Pennu isafswm balansau cyffredinol o £6.5m ar gyfer 2018/19 yn unol ag asesiad y Swyddog Adran 151;**<br>**• Cadarnhau parhad y cronfeydd presennol a glustnodwyd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn rheoli'r lefel a'r defnydd o arian wrth gefn a balansau'r Cyngor.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Cynllun Ariannol y Tymor Canol a'r Gyllideb 2018/19**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>**• Nodi'r cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol ar y gyllideb ac ystyried yr adborth a gafwyd yn eu sgil ac fel yr amlinellir yn Adran 2, Atodiad 1 ac yn Atodiad 2;**<br>**• Nodi'r crynodeb yn Adran 11 ac Atodiad 5 ar oblygiadau'r cynigion cyllidebol o safbwynt cydraddoldebau;**<br>**• Cytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor gan gynnwys y cyllid diwygiedig mewn ymateb i'r pwysau ar y gyllideb a'r arbedion arfaethedig fel y dangosir nhw yn Adran 10 Atodiad 1 ac Atodiad 3;**<br>**• Bod yr arbedion ar gyllidebau ysgolion dirprwyedig a ohiriwyd o 2017/18, yn cael eu dyrannu ar draws y 3 sector ysgol ar sail lefel y balansau ysgolion ar 31 Mawrth, 2017(ffigwr olaf). Byddai hyn yn dyrannu'r arbedion fel â ganlyn: £399,940 i'r sector cynradd; £53,460 i'r sector uwchradd; £36,600 i'r sector ysgolion arbennig.** |

| | |
|---|---|
| | **• Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 bod o leiaf £6.5m yn cael ei gadw ym malansau'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer 2018/19;**<br>**• Nodi’r sylwadau a wnaed gan y Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon a wnaed fel y cânt eu hamlinellu yn Adran 8, Atodiad 1.**<br>**• Argymell cyllideb net ar gyfer y Cyngor Sir a’r cynnydd yn lefel y Dreth Gyngor o ganlyniad, gan nodi y bydd penderfyniad ffurfiol yn cynnwys y Praeseptau i Heddlu Gogledd Cymru a'r Cynghorau Cymuned, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 28 Chwefror, 2018.**<br>**• Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau a all fod yn angenrheidiol cyn cyflwyno’r cynigion terfynol i'r Cyngor.**<br>**• Cytuno fod unrhyw gyllidebau a arweinir gan y galw ac y bydd pwysau annisgwyl arnynt yn ystod y flwyddyn ariannol yn gallu tynnu ar gyllid o’r cyllidebau hapddigwyddiadau cyffredinol.**<br>**• Gofyn i’r Cyngor awdurdodi’r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o’r balansau cyffredinol os bydd y gyllideb hapddigwyddiadau gyffredinol wedi’i hymrwymo’n llawn yn ystod y flwyddyn.**<br>**• Dirprwyo i’r Swyddog Adran 151 y pwer i ryddhau hyd at £50k o’r gronfa hapddigwyddiadau gyffredinol ar gyfer unrhyw un eitem. Ni chaniateir cymeradwyo unrhyw eitem dros £50k heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Pwyllgor Gwaith;**<br>**• Argymell cynnydd o 4.8% yn y Dreth Gyngor i'r Cyngor.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cwblhau cynigion Cyllideb Refeniw terfynol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2018/19.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Bydd Cyllideb Refeniw 2018/19 yn cael ei phenderfynu gan y Cyngor Llawn ar 28 Chwefror, 2018.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 Cyllideb Gyfalaf 2018/19**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>**Argymell y rhaglen gyfalaf ganlynol i'r Cyngor llawn ar gyfer 2018/19:-**<br><br>**£'m**<br><br>**Cynlluniau Ymrwymedig a Ddygwyd Ymlaen o 2017/18 23.399**<br><br>**Buddsoddi mewn Asedau Presennol 2.518**<br><br>**Prosiectau Buddsoddi i Arbed 0.258**<br><br>**Cynnal a Chadw Priffyrdd 1.592**<br><br>**Ysgolion 21ain Ganrif 8.850**<br><br>**Cyfanswm Cynlluniau Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol 36.609**<br><br>**Cynlluniau Cyfalaf CRT 12.417**<br><br>**Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2018/19 49.034**<br><br>**Cyllidir drwy:-**<br><br>**Cyllid a ddygwyd ymlaen o 2017/18 1.040**<br><br>**Grant Cyfalaf Cyffredinol 1.334** |

| | |
|---|---|
| | **Derbyniadau Cyfalaf 0.500**<br><br>**Benthyca â Chefnogaeth 2.192**<br><br>**Benthyca digefnogaeth – Ysgolion 21ain Ganrif 3.734**<br><br>**Benthyca â Chefnogaeth – Ysgolion 21ain Ganrif 1.279**<br><br>**Grantiau Allanol 28.030**<br><br>**Arian Cyfalaf wrth gefn 0.258**<br><br>**Grant Atgyweirio Priffyrdd 0.910**<br><br>**Cyllid CRT 9.757**<br><br>**Cyfanswm Cyllid <u>49.034</u>**<br><br>• **Cefnogi'r ddau gais ar gyfer cyllid Buddsoddi i Arbed a gyflwynwyd fel a ganlyn -**<br><br>**Effeithlonrwydd Ynni mewn Adeiladau Corfforaethol £250,000**<br>**Uwchraddio'r WiFi yng Nghanolfan Byron £8,750**<br><br>• **Cefnogi'r prosiectau benthyca digefnogaeth canlynol ar gyfer eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf 2018/19 -**<br><br>**Adeiladu cae 3G newydd yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur**<br><br>**Prynu offer ffitrwydd newydd i Ganolfan Hamdden Caergybi** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Argymell Cyllideb Gyfalaf ar gyfer 2018/19 i'r Cyngor Llawn.** |

| | |
|---|---|
| | |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Bydd y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2018/19 yn ael ei phenderfynu gan y Cyngor Llawn ar 28 Chwefror, 2018.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **14 Polisi ar gyfer Cymorth Dewisol tuag at y Dreth Gyngor**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell i Gyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor llawn) ei fod, yn y cyfarfod ar 28 Chwefror 2018 –**<br><br>**• Yn cymeradwyo Polisi Cymorth Dewisol tuag at y Dreth Gyngor o dan adran 13A (1) (c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (DCLlL 1992) - fel y manylir yn Atodiad A yr adroddiad.**<br>**• Yn dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith y pŵer i ddiddymu, ailddeddfu a / neu ddiwygio ei Bolisi Cymorth Dewisol tuag at y Dreth y Cyngor.**<br>**• Yn dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 benderfynu ar geisiadau a wnaed o dan adran 13A(1)(c) o DCLlL 1992 ac unrhyw ddiwygiad neu ailddeddfiad ohoni, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ganllawiau polisi a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol / Llywodraeth Cymru, y Cyngor llawn neu'r Pwyllgor Gwaith.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cynnig y Polisi Cymorth Dewisol Tuag at Y Dreth Gyngor i'r Cyngor Llawn.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Mater i'w benderfynu gan y Cyngor Llawn ar 28 Chwefror, 2018.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **15 Polisi ar gyfer Cymorth Dewisol tuag at Drethi Busnes**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth |

| | |
|---|---|
| | (Adnoddau/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Mabwysiadu'r Fframwaith gyfredol mewn perthynas â Chymorth Dewisol tuag at Drethi Busnes – Elusennau a Sefydliadau Dielw fel y manylir arno yn Atodiad A ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 yn unig a rhoi cyfarwyddyd i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 sicrhau bod y gweithdrefnau gweinyddol cyn 31 Mawrth 2018 yn rhoi gwybod i'r elusennau a'r sefydliadau dielw perthnasol y bydd y polisi mewn grym ar gyfer 2018/19 yn unig ac y bydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019.**<br>• **Cytuno i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y fframwaith yn ystod hanner cyntaf 2018/19 gyda fframwaith diwygiedig yn cael ei weithredu o 1 Ebrill 2019.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo'r Fframwaith ar gymorth dewisol tuag at drethi busnes – elusennau a sefydliadau dielw ar gyfer 2018/19.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **16 Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Nodi cynnwys yr adroddiad eglurhaol.**<br>• **Cymeradwyo'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (gan gynnwys y Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys) ar gyfer 2018/19 (Atodiad A)**<br>• **Cyflwyno'r Strategaeth Rheoli Trysorlys i'r Cyngor Llawn heb unrhyw sylwadau pellach.**<br>• **Cymeradwyo'r newid yn ART, i** |

| | |
|---|---|
| | **gynyddu'r isafswm balans arian parod o £6m i £6.5m i adlewyrchu'r cynnydd yn isafswm balans yr arian wrth gefn cyffredinol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cydymffurfio â'r Cynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys 2017/18.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Na. Bydd y mater yn cael ei ystyried gan y Cyngor Llawn ar 28 Chwefror, 2018.** |